**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 11 Tachwedd 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | V A Holland | S Joy |
| P Lloyd | M W Locke | H M Morris |
| C L Philpott | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Associate Lawyer |
| Richard Jenkins | Operational Lead - Taxis |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Paula Livingstone | Divisional EHO, Pollution Control and Private Sector Housing |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Bailey, J P Curtice a/ac B J Rowlands

---

**1 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**2 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022 yn gofnod cywir.

**3 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 4 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - ASJ.

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag ASJ.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd ASJ yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau’r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Caniatáu cais ASJ am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ASJ yn bodloni'r meini prawf addasrwydd ar gyfer caniatáu’r drwydded. Roedd sylwadau’r Ymgeisydd yn ddigonol i fodloni paragraff 3.29 ynghylch paragraff 4.20 a oedd yn cyfiawnhau caniatáu’r drwydded gyda’r rhybudd.

## 5 Trwyddedu HMO - Deddf Tai 2004 - Statws Person Addas a Phriodol - CD.

Cyflwynodd Swyddog Adrannol Iechyd yr Amgylchedd – Rheoli Llygredd a Thai’r Sector Preifat ynghyd ag Uwch-swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â CD.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd CD, yng nghwmni Mr P D, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. Rhoi llythyr rhybuddio i CD ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.
2. Bod CD yn berson addas a phriodol ac mae’r trefniadau rheoli’n foddhaol fel y’u nodir ym Mholisi’r cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod CD yn bodloni'r meini prawf person addas a phriodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.10 pm

**Cadeirydd**